

## Canllaw Rhif 1 i Ddefnyddwyr

# Canllaw i Ddechreuwr ar Ymweld ag Archifdy Sir y Fflint

### LLE MAE ARCHIFDY SIR Y FFLINT?

Mae Archifdy Sir y Fflint wedi'i leoli yn yr Hen Reithordy, adeilad rhestredig gradd II sy'n dyddio o'r 18fed ganrif, yng nghanol pentref Penarlâg. Lôn y Rheithordy yw'r troad gerllaw Swyddfa'r Post. Mae digon o le i geir barcio o flaen yr adeilad (dilynwch yr arwyddion i'r Maes Parcio, gan droi i'r dde i lawr y llethr o flaen yr Hen Reithordy).

### BETH MAE ARCHIFDY SIR Y FFLINT YN EI WNEUD?

Mae Archifdy Sir y Fflint yn ceisio diogelu treftadaeth archifol unigryw ein sir trwy gasglu, rhestru a storio archifau hanesyddol o bob math a gwneud yn siŵr eu bod ar gael i'r cyhoedd. Bydd pobl yn defnyddio Archifdy Sir y Fflint am sawl rheswm, yn cynnwys ymchwilio i:

- hanes y teulu
- hanes eu tŷ
- hanes lleol – trefi, pentrefi, adeiladau, sefydliadau, pobl a digwyddiadau amlwg
- aseiniadau a thraethodau ysgol a choleg
- cyhoeddiadau fel llyfrau ac erthyglau mewn cylchgronau

### PRYD MAE'R ARCHIFDY AR AGOR?

Mae Archifdy Sir y Fflint ar agor i'r cyhoedd ar yr adegau canlynol:

Dydd Llun – Dydd Mawrth 10.00am – 4.30pm

Dydd Mercher AR GAU

Dydd Iau – Dydd Gwener 10.00am – 4.30pm

Mae'r ystafell ymchwil yn dal ar agor yn ystod amser cinio, ond ni fyddwn yn tynnu dogfennau o'r ystafelloedd diogel rhwng 11.45 am a 1.30pm.

### A OES MYNEDIAD I'R ANABL?

Mae'r cyntedd, yr ystafell ymchwil a'r toiledau cyhoeddus wedi'u lleoli ar y llawr cyntaf a gall defnyddwyr anabl fynd iddynt. Mae drws awtomatig i'r ystafell ymchwil gyda 'botwm gwthio' i'w agor, sy'n addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Gall pobl sy'n methu cerdded yn bell barcio ym maes parcio'r staff sydd ger y brif fynedfa.

Mae yna hefyd Ddolen Glyw yn yr ystafell ymchwil y gall defnyddwyr teclynnau clywed diwnio i mewn iddi, i'w helpu i glywed yn yr Archifdy.

## **A OES ANGEN I MI ARCHEBU YMLAEN LLAW?**

Oes, mae'n bwysig iawn eich bod yn ffonio neu'n e-bostio ymlaen llaw i gadw lle. **Ffôn:** 01244 532364. **E-bost:** archives@flintshire.gov.uk. Mae llefydd yn brin a'r galw'n uchel, felly mae'n hanfodol eich bod yn archebu lle ymlaen llaw rhag cael eich siomi. Dylech archebu mor bell ymlaen â phosibl er mwyn gwneud yn siŵr y bydd lle ar gael.

Os byddwch yn dod â rhywun gyda chi, hyd yn oed os na fydd ef neu hi'n ymchwilio ei hun, ond yn dod i'ch helpu neu i gadw cwmni i chi, dylech hysbysu'r staff y bydd arnoch angen mwy ag un lle. Nid oes gennym ddigon o le ar gyfer pobl ychwanegol, felly bydd angen archebu lle ar gyfer pob unigolyn. **Gadewch i ni wybod os nad ydych yn gallu manteisio ar le rydych wedi'i archebu, fel y gall eraill ddefnyddio'r cyfleusterau.**

## **BETH DDYLWN I ARCHEBU?**

Bydd angen i chi nodi pa fath o gofnod rydych am edrych arno pan fyddwch yn ymweld â'r Archifdy. Os ydych yn ansicr beth fyddwch eisiau edrych arno, gall yr aelod o staff sy'n siarad â chi pan fyddwch yn ffonio i archebu lle eich cynghori.

**DARLLENWYR MICROFFILM:** Rydym yn cadw ffynonellau fel cofrestrau plwyf, cyfrifiadau, papurau newydd a pheniadau'r degwm ar ficroffilm felly bydd angen i chi archebu darlennydd microffilm i edrych ar y cofnodion yma.

**DESGIAU AR GYFER DOGFENNAU GWREIDDIOL:** Os ydych yn dymuno edrych ar ddogfennau gwreiddiol fel cofrestrau etholiadol, cofnodion wyrchw, cofnodion ysgol, cofnodion cynghorau neu unrhyw gofnodion o'n casgliadau teulu, ystâd neu fusnes, bydd angen i chi archebu desg. **D.S.** Mae'n bosib fod rhai cofnodion, fel **cofnodion eglwysi/capeli anghydfurfiol**, yn cael eu cadw ar ficroffilm ac fel fersiynau gwreiddiol. Os hoffech edrych ar y rhain, bydd angen i chi archebu darlennydd microffilm A desg.

**TABL MAPIAU:** Os oes arnoch angen edrych ar fapiau, megis mapiau'r arolwg ordnans, mapiau tir caeedig, mapiau'r degwm, mapiau mwyngloddiau segur neu fapiau ystâd, bydd angen i chi archebu tabl mapiau. **D.S.** Os ydych yn edrych ar **fapiau'r degwm** dylech fod yn ymwybodol fod y peniad cyfatebol yn cael ei gadw ar ficroffilm felly bydd angen i chi archebu darlennydd microffilm A bwrdd mapiau.

**CYFRIFIADURON:** Mae cyfrifiaduron ar gael er mwyn mynd ar y rhyngwyd i ddibenion ymchwil. Rydym yn tanysgrifio i Ancestry sy'n golygu y gallwch chwilio mynegeion ar-lein i gofrestrau plwyf, cyfrifiadau a gwybodaeth am enedigaethau, priodasau a marwolaethau yn ddi-dâl. Rhaid i chi archebu cyfrifiadur ymlaen llaw os ydych yn dymuno defnyddio un.

**CYFRIFIADURON PEN-GLIN:** Mae croeso i chi ddod â chyfrifiadur pen-glin gyda chi, ac mae pwyntiau trydan ar gael wrth y desgiau. Ond os ydych yn defnyddio darlennydd microffilm, bydd angen i chi hefyd archebu desg i weithio ar eich cyfrifiadur pen-glin, gan nad oes digon o le wrth y darllenwyr microffilm.

**ARCHEBU DOGFENNAU YMLAEN LLAW:** Gallwch archebu dogfennau ymlaen llaw, os ydych yn gwybod beth rydych am ei weld (gorau oll os yw'r cyfeirnod gennych). Fe wnawn ein gorau i gael y dogfennau rydych wedi gofyn amdanynt yn barod i chi edrych arnynt pan ddowch i'r Archifdy. **Nodwch: os ydych am weld casgliad Glynne Gladstone (Cyf: GG), nid yw'r cofnodion hyn yn cael eu cadw ar y safle ac mae'n hanfodol eich bod yn archebu dogfennau o'r casgliad yma o leiaf 2 ddiwrnod gwaith cyn eich ymweliad.**

### **SUT DDYLWN I BARATOI AR GYFER FY YMWELIAD?**

Nodwch beth rydych am ymchwilio iddo, a dewch â rhestr gyda chi o wybodaeth angenrheidiol fel dyddiadau, llefydd ac enwau, i wneud y gorau o'ch ymweliad. Mireiniwch yr hyn rydych yn chwilio amdano gymaint ag y gallwch, fel na fyddwch yn cael eich llethu â gwybodaeth wrth i chi ddechrau chwilio.

Mae staff ar gael i'ch helpu, a byddant yn dangos i chi lle mae'r catalogau/mynegeion, a sut i ddefnyddio'r darllenwyr microffilm neu drin dogfennau. Ni allwn ymchwilio ar eich rhan, fodd bynnag, oherwydd prinder amser, a bydd o gymorth os oes gennych ryw syniad o'r hyn rydych am edrych arno. Mae gennym amrywiaeth o ganllawiau ffynhonnell yn yr ystafell ymchwil a fydd yn dweud wrthyfych beth sydd i'w ddysgu o wahanol gofnodion.

Os ydych wedi ffonio neu e-bostio ymlaen llaw a derbyn ateb, dewch â chopi o'r ateb gyda chi a/neu unrhyw gyfeirnodau a roddwyd i chi, er mwyn osgoi gorfod chwilio am yr un wybodaeth eto.

### **BETH DDYLWN I DDOD GYDA MI?**

Bydd angen i chi ddod â'r eitemau canlynol gyda chi pan fyddwch yn ymweld â'r Archifdy:

- **Tocyn Darllenwr CARN:** Er mwyn gweld archifau yn Archifdy Sir y Fflint, bydd arnoch angen tocyn darllenwr y Rhwydwaith Ymchwilio i Archifau Sirol (tocyn CARN). Os nad oes gennych un yn barod, gallwn baratoi un i chi ar ddiwrnod eich ymweliad. Bydd angen i chi ddod â rhyw fath o ddogfen adnabod gyda chi sy'n cynnwys **eich cyfeiriad presennol a'ch llofnod**. Enghraifft dda o hyn yw **trwydded yrru** sy'n cynnwys eich llofnod a'ch cyfeiriad. Fel arall, mae **bil cyfleustodau** gyda'ch cyfeiriad arno, a **cherdyn credyd/debyd** gyda'ch llofnod arno, yn dderbyniol. Ar ôl i chi ei dderbyn, mae'r tocyn yn ddilys am 4 blynedd a chaiff ei dderbyn mewn llawer o Archifdai ar draws y DU. **Os nad ydych yn dod â'r mathau iawn o ddogfennau adnabod gyda chi, ni chewch edrych ar ddogfennau gwreiddiol.** Efallai y gallwn roi tocyn dydd dros dro i chi, ond dim ond microffilmiau ac archifau dirprwyol eraill y cewch edrych arnynt, nid rhai gwreiddiol.
- **Pensiliau:** Ni chaniateir pinnau ysgrifennu yn yr ystafell ymchwil oherwydd gall inc niweidio archifau brau ac unigryw. Efallai yr hoffech ddod â miniwr gyda chi hefyd. Nid yw casys pensiliau chaniateir.

- **Llyfr nodiadau neu bapur sgrap** er gyfer nodiadau. Sylwch na chaniateir ffolderi mawr, swmpus yn yr ystafell ymchwil am resymau diogelwch. Gwnewch eich gorau i wneud rhestr o'r hyn rydych am edrych arno ymlaen llaw, fel nad oes angen i chi ddod â ffolderi mawr gyda chi. Mae cypyrddau bach ar gael yn y cyntedd lle gallwch gadw eitemau diangen.

**Efallai yr hoffech ddod â'r canlynol gyda chi hefyd:**

- **Camera:** Efallai yr hoffech dynnu lluniau o ddogfennau ar gyfer eich ymchwil (yn amodol ar gyfyngiadau hawlfraint). Mae gennym system trwyddedu ffotograffiaeth sy'n golygu y gallwch brynu trwydded ddyddiol, wythnosol, misol neu flynyddol.
- **Arian:** Os hoffech brynu copïau o gofnodion, bydd angen i chi dalu ag arian parod neu siec. Nid ydym yn derbyn cardiau debyd na chredyd.

**A OES LLUNIAETH AR GAEL?**

Bydd angen i chi ddod â bwyd a diod gyda chi. Mae seddi ar gael yn y cyntedd lle gall ymwelwyr fwyta eu cinio. Fel arall mae sawl lle yn y pentref, o fewn pellter cerdded o'r Archifdy, sy'n gwerthu cinio poeth neu oer.

**LLE ALLA' I AROS DROS NOS?**

Mae gennym restr o lety i'r rhai sy'n dymuno aros dros nos neu'n hirach yng nghyffiniau'r Archifdy.

**GWYBODAETH BELLACH:**

Os oes gennych ymholiadau pellach cyn eich ymweliad, cysylltwch â ni yn: Yr Hen Reithordy, Penarlâg, Sir y Fflint, CH5 3NR, Ffôn. 01244 532364 neu e-bost: [archives@flintshire.gov.uk](mailto:archives@flintshire.gov.uk)

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i Archifdy Sir y Fflint.